PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

DYDD MERCHER, 26 MEHEFIN 2024

PRESENNOL Cynghorydd A.C. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	K.V. Broom	L. Davies	P. Hughes-Griffiths
B.W. Jones	H. Jones	M.J.A. Lewis	E. Skinner

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

D. Jones	S.L. Rees	J. Williams

Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):
A. Enoch, Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr
M. Hughes, Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru
V. Kenny, Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig

Roedd yr Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):
Y Cynghorydd G. Davies, Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

Y Cynrychiolwyr Ysgolion oedd yn bresennol:
E. Powell, Ysgol Gynradd Peniel
G. Richards, Ysgol Gynradd y Bedol
G. Roberts, Ysgol Gynradd y Bedol

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
E. Forsyth, Arweinydd Strategol ar gyfer Effeithiolrwydd Ysgolion
A. Carter, Uwch Rheolwr Trawsnewid a Newid Ysgolion
R. Williams, Rheolwr Darpariaeth Anghenion Ychwanegol
E. Williams, Rheolwr Prosesu Anghenion Ychwanegol
R. Davies, Athro Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol
T. Earey, Athro Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
S. Griffiths, Rheolwr Tim Moderneiddio
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.39 yp

[Gohiriwyd y cyfarfod am 11:35 o'r gloch oherwydd materion technegol. Ailymgynullodd y cyfarfod am 11:45].

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd B. W. Jones	5. Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg.	Mae ei mab yn bennaeth ysgol yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynghorydd Jones wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau sy'n caniatáu iddi siarad a chyflwyno sylwadau yn unig.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. DIWEDDARIAD TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad i'w ystyried ynghylch gweithredu'r darpariaethau sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a oedd yn ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Roedd yr adroddiad yn nodi cynnydd yr Awdurdod hyd yma, meysydd o arferion gorau, meysydd i'w gwella a'r datblygiadau yn y dyfodol sydd eu hangen i gefnogi diwygio parhaus. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod ar y trywydd iawn i drosglwyddo pob plentyn i'r system ADY newydd erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2024/2025.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad oedd yn manylu ar brofiadau Ysgol y Bedol, Ysgol Peniel ac Ysgol Sant Ioan Llwyd wrth ymgorffori'r system ADY yn eu hysgolion nhw.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu'r meysydd yr ystyriwyd eu bod yn gweithio'n dda a'r rhai yr oedd angen mynd i'r afael â hwy o ran rôl y Cydgysylltwyr ADY, hyfforddiant a chymorth, dulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a'r gwaith partneriaeth parhaus gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod ymdrechion yr Awdurdod i ymgorffori system oedd yn sicrhau bod darpariaeth o ran adnoddau dwyieithog, asesiadau a staffio ar gael a bod digon o ddarpariaeth arbenigol. Yn hyn o beth, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai'r Awdurdod oedd yr Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg o ran gweithio ar

draws Awdurdodau Lleol i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn ei lle a bod adnoddau Cymraeg yn cael eu datblygu i gefnogi Trawsnewid ADY.

Wrth ystyried yr heriau o ran gweithredu ADY, nodwyd bod y prif feysydd yn canolbwyntio ar gapasiti staffio, cysondeb o ran adnabod ADY, ariannu a dyrannu adnoddau, sicrhau ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, cydweithio amlasiantaethol ac ymgysylltu â lleoliadau nas cynhelir a chyflawni cyfrifoldebau o ran dysgwyr ôl-16.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch oedi annerbyniol y GIG o ran plant sy'n cael asesiadau awtistiaeth ac Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwyntio ond anogwyd y Pwyllgor i nodi bod cymorth ar gael i'r holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, waeth beth yw eu diagnosis meddygol ffurfiol.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddodd Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol wybod i'r Pwyllgor am yr amrywiaeth o fesurau a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod i wella cysondeb o ran gweithdrefnau ADY ar draws ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys gofynion o ran darpariaeth gyffredinol, rhannu arferion gorau, darparu rhaglen hyfforddiant a chymorth gynhwysfawr a threfniadau cydweithio agos gydag ysgolion.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod deddfwriaeth yn pennu bod disgwyl i Gynlluniau Datblygu Unigol gael eu cwblhau o fewn cyfnod o 12 wythnos gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac i wybodaeth gael ei chasglu o amrywiaeth o ffynonellau / rhanddeiliaid priodol. Yn ogystal, sefydlwyd protocol trosglwyddo ADY gwell yn yr Awdurdod i sicrhau y gellid rhannu gwybodaeth briodol am ddisgyblion yn ddi-dor o fewn cyfyngiadau protocolau diogelu data. Yn unol â hynny, barnwyd bod Cynlluniau Datblygu Unigol yn ddogfennau hyblyg a fyddai'n trosglwyddo gyda'r disgyblion a fyddai'n symud i ysgol arall, gan gynnwys pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

Croesawodd y Pwyllgor yr adolygiad parhaus o ofynion rôl a strwythur cyflog Cydlynwyr ADY a Chynorthwywyr Addysgu, er y cydnabuwyd y byddai goblygiadau ariannol sylweddol i unrhyw gynnydd i'r codiadau cyflog.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn ystod y flwyddyn ac roedd y duedd hon yn adlewyrchiad o'r sefyllfa ar lefel genedlaethol. Yn hyn o beth, nid oedd yn ofynnol i rieni/gwarcheidwaid nodi eu rhesymau dros dynnu eu plant o leoliadau ysgol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cymhlethdodau mewn perthynas ag iechyd a chydweithredu amlasiantaethol yn seiliedig ar atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol, pennu cyfrifoldeb am ariannu a delio â phrotocolau gwahanol ar gyfer asiantaethau trawsffiniol. Rhoddwyd cymorth i ysgolion gan yr Awdurdod i oresgyn heriau o'r fath. Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol fod yr Awdurdod yn darparu model cefnogi gwahaniaethol i ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4.1 nodi'r adroddiad;

4.2 bod gweithdy ynghylch Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael ei ymgorffori ym Mlaengynllun Gwaith 2024/25.

5. STRATEGAETH Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG (RHMA)

[NODER: Roedd y Cynghorydd B.W. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried ond nid oedd wedi pleidleisio.]

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fersiwn drafft yr Awdurdod o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a luniwyd i gyfarwyddo cyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Addysg newydd yn y dyfodol. Roedd y strategaeth ddrafft yn cael ei harwain gan gyfres o amcanion strategol ac roedd yn seiliedig ar egwyddor dull cyfannol a'r gofyniad i wella a chefnogi ystod o amcanion cenedlaethol, corfforaethol ac addysgol. At hynny, roedd y strategaeth ddrafft yn manylu ar feini prawf hyfywedd a buddsoddi sy'n ofynnol i sicrhau dull priodol a thryloyw o ddatblygu trefniadaeth ysgolion a chynigion buddsoddi.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, atgoffwyd y Pwyllgor gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg fod ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ar y strategaeth ddrafft wedi'i gynnal rhwng 13 Chwefror 2024 a 12 Mawrth 2024 a byddai'r holl adborth a ddarperir yn cael ei ystyried gan y Cabinet.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag adeiladau ysgol newydd yn cyrraedd capasiti o ran disgyblion o fewn cyfnod byr, rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant wybod i'r Pwyllgor am ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch dylunio adeiladau ysgol newydd. Dywedwyd bod y Cabinet, ar brydiau, wedi rhoi cyfrif blaenorol am ofynion capasiti arfaethedig ysgolion newydd yn y dyfodol yn ystod cam dylunio'r adeiladau lle'r oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn rhagweld twf yn y dyfodol. Serch hynny, mentrwyd gwneud penderfyniadau o'r fath a gallent arwain at gosbau ariannol gan Lywodraeth Cymru oni lwyddir i gyrraedd yr amcanestyniadau o ran y capasiti yn y dyfodol. Gwnaed cais bod dyluniadau adeiladau newydd yn y dyfodol yn bodloni'r potensial i ychwanegu estyniadau pe bai'r gofod a'r gofyniad yn caniatáu hynny.

Eglurodd Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Addysg, mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr amserlenni sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau adeiladu ysgolion newydd, fod yr Awdurdod yn gallu rhoi amcanestyniadau am gyfnod o 5 mlynedd, ac adolygir cynlluniau prosiectau o bryd i'w gilydd i sicrhau cywirdeb cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Ar ben hynny, roedd cyfle hefyd i ddiwygio cwmpas prosiect gyda Llywodraeth Cymru pe bai angen, ond roedd hyn yn amodol ar gydymffurfio ag amodau penodol.

Cyfeiriwyd at y pwysau ariannol sylweddol o fewn y rhaglen gyfalaf Addysg a Phlant lle eglurwyd bod gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion yn cael

blaenoriaeth yn unol â'r meysydd sydd â'r anghenion mwyaf; ond nodwyd nad oedd digon o gyllideb i fodloni anghenion ysgolion.

O ran gwella ansawdd adeiladau, mynegwyd pryder bod y strategaeth ddrafft yn cyfeirio at adeiladau ysgolion newydd yn unig. Cafwyd trafodaeth ynghylch Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin a nodir yn yr adroddiad. Yn hyn o beth, awgrymwyd bod y Cabinet yn ystyried dileu'r egwyddor addysg sy'n ymwneud â dim mwy na 2 grŵp blwyddyn yn cael eu dyrannu i bob dosbarth addysgu ar y sail y byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff ac ansicrwydd i rieni. O ran yr egwyddor arweiniol sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth gynaliadwy, nodwyd mai'r nod oedd galluogi pob pennaeth ar draws yr Awdurdod i ymgymryd â rôl arweiniol heb unrhyw ymrwymiadau addysgu, ond cydnabuwyd y cymhlethdodau o ran hyn o beth ac, ar ben hynny, pwysleisiwyd nad oedd yr egwyddorion yn ofynion statudol. Cytunwyd y byddai gwybodaeth am nifer y penaethiaid sydd ag ymrwymiadau addysgu, ynghyd â nifer yr ysgolion cynradd sydd â mwy na 2 grŵp blwyddyn yn cael eu dyrannu fesul dosbarth addysgu, yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor.

Cyfeiriwyd at weledigaeth y Cabinet ar gyfer addysg a oedd yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu defnydd cymunedol o gyfleusterau ysgolion y tu allan i oriau addysgu. Yn unol â hynny, gofynnwyd a fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefyllfa unigol pob ysgol yng nghyd-destun yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod nifer o brosiectau ar y gweill a oedd yn pennu cyllid grant i'w ddefnyddio gan ysgolion a'r gymuned. Eglurwyd hefyd fod ysgolion yn cael eu hannog i rannu eu cyfleusterau â chymunedau cyfagos lle bo hynny'n bosibl ond cydnabuwyd y byddai angen ystyried ffactorau fel y ddarpariaeth leol bresennol, costau ac addasrwydd cyfleusterau.

Cyfeiriwyd at y meini prawf hyfywedd a nodir yn y strategaeth ddrafft lle pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant bwysigrwydd sicrhau system addysg oedd yn adlewyrchu natur ddaearyddol y sir, a nododd yr awgrym i ddarparu eglurder a gwybodaeth bellach o ran niferoedd disgyblion.

PENDERFYNWYD:

5.1 nodi'r adroddiad;

5.2 bod y Cabinet yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg a oedd yn rhoi manylion am y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor ac roedd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw

faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen, sesiynau datblygu a phresenoldeb aelodau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.

7. BLAENGYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG AR GYFER 2024/25

Bu'r Pwyllgor yn adolygu ei Flaengynllun Gwaith drafft ar gyfer 2024/25, a ddatblygwyd yn dilyn sesiwn cynllunio anffurfiol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2024 ac adborth dilynol a ddaeth i law gan aelodau a swyddogion. Pwysleisiwyd bod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddaru trwy gydol y flwyddyn yn ôl y gofyn.

CYTUNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ar gyfer 2024/25.

8. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant y byddai'r wybodaeth y gofynnir amdani gan y Pwyllgor mewn perthynas â chyfrifo'r fformiwla ariannu a dyraniad cyllideb ysgolion fesul pen yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor yn fuan. Byddai rhagor o wybodaeth am hyn hefyd yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad cyllidebau ysgolion a'r bwriad oedd y byddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAI 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2024 yn gofnod cywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf